| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor Llawn |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 6 Rhagfyr 2022 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant / Tony Ward, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Awdur yr adroddiad** | Tim Towers, Rheolwr Risg ac Asedau |
| **Teitl** | Cynllun Amddiffyn Arfordir Canol y Rhyl a Phrestatyn |

# 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â dau gynllun amddiffyn arfordir posibl ar gyfer Canol y Rhyl a Chanol Prestatyn.

# 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Oherwydd lefel yr ymrwymiad ariannol sy'n ofynnol gan y Cyngor, gofynnir am gymeradwyaeth i symud ymlaen i gam adeiladu'r ddau gynllun.

# 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi ystyried cynnwys yr Asesiadau o Effaith ar Les ar gyfer pob cynllun (sydd wedi eu hatodi fel Atodiad 3a ac Atodiad 3b).

3.2. Bod y Cyngor yn cefnogi'r cynnig i symud cynllun Amddiffyn Arfordir Canol y Rhyl yn ei flaen i'r cam adeiladu, gan ddefnyddio'r model cyllid cymorth grant a nodir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn a chytuno i ddarparu 85% o'r gost fenthyca i ariannu'r cynllun.

3.3. Bod y Cyngor yn cefnogi'r cynnig i symud cynllun Amddiffyn Arfordir Canol Prestatyn yn ei flaen i'r cam adeiladu, gan ddefnyddio'r model cyllid cymorth

grant a nodir gan Lywodraeth Cymru.  Mae hyn yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn a chytuno i ddarparu 85% o'r gost fenthyca i ariannu'r cynllun.

3.4. Bod y Cyngor yn dirprwyo awdurdod i Fwrdd Prosiect Amddiffyn yr Arfordir gyflawni'r cynlluniau.

# 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Prestatyn: Mae'r amddiffynfeydd arfordirol presennol ar hyd tu blaen Cwrs Golff y Rhyl oddeutu 70 mlwydd oed ac mewn cyflwr gwael, sy'n golygu bod y Cyngor eisiau sicrhau eu bod yn cael eu gwella ddigon buan. Pe byddai'r amddiffynfeydd presennol yn methu yn y fan hon, byddai'r perygl o lifogydd mewn dros 2,000 o adeiladau yn ardal Prestatyn yn cynyddu'n sylweddol.  Mae hyn oherwydd y bydd tir isel y tu ôl i'r amddiffynfeydd yn caniatáu i unrhyw ddŵr llifogydd morol orlifo dros ardal eang.  Ar ôl gwerthuso'r dewisiadau, y dewis a ffefrir (cost ddangosol £26 miliwn, gydag 85% o'r costau wedi eu hariannu gan Lywodraeth Cymru) yw arglawdd tir sydd wedi'i osod yn ôl o reng flaen yr amddiffynfeydd ar hyd ffin Clwb Golff y Rhyl.  Wrth i ddŵr lifo dros yr amddiffynfeydd rheng flaen presennol yn ystod tywydd stormus, bydd llifddwr yn cael ei gadw ar dir y clwb golff nes iddo gael ei ryddhau yn ôl i'r môr.  Mae graddfa'r cynllun a llun o'r dyluniad i'w weld yn Atodiad 1.

Cafodd y cynllun ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio ar 13 Gorffennaf 2022, a rhoddwyd caniatâd cynllunio. Gosodwyd nifer o amodau cyn dechrau, ac mae tîm y prosiect yn hyderus y gellir eu cyflawni.  Cafodd trwydded forol ar gyfer y cynllun ei chaniatáu gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar 9 Tachwedd 2021.

Cyflwynwyd Achos Busnes Llawn ar gyfer y cynllun i Lywodraeth Cymru (LlC) ddiwedd mis Tachwedd 2022. Mae'r Cyngor wedi gweithio'n agos gyda LlC yn ystod datblygiad y cynllun ac mae'n rhagweld y ceir cymeradwyaeth gan LlC erbyn diwedd mis Rhagfyr 2022.

Mae asesiad o effaith carbon wedi ei gynnal sy'n dangos, dros oes y cynllun, bod effeithiau carbon yn debyg iawn i'r buddion carbon, sy'n golygu bod y cynllun yn garbon niwtral.

Mae'r cynllun yn effeithio ar Glwb Golff y Rhyl, sy'n prydlesu Cwrs Golff y Rhyl gan y Cyngor. Mae trafodaethau gyda'r clwb yn parhau ac yn symud ymlaen yn gadarnhaol.

4.2. Canol y Rhyl: Caiff ardal ganolog y Rhyl (rhwng Splash Point a Pharc Drifft) ei gwarchod ar hyn o bryd gan amddiffynfeydd môr sy'n dirywio. Mae'r Cyngor eisiau sicrhau bod yr amddiffynfeydd presennol yn cael eu newid ymhell o flaen llaw, er mwyn amddiffyn y rhan boblogaidd yma o arfordir y Rhyl rhag llifogydd ac erydu arfordirol. Pe byddai'r amddiffynfeydd presennol yn methu yn y fan hon, byddai'r perygl o lifogydd mewn dros 600 o adeiladau yn ardal y Rhyl yn cynyddu'n sylweddol. Disgwylir i'r cynllun gostio oddeutu £66 miliwn, gydag 85% o'r costau yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yn golygu: Gosod creigiau a deunyddiau i atal erydu, wedi'u claddu o dan y tywod presennol, ac atgyweiriadau concrid i'r morglawdd presennol tuag at ochr ddwyreiniol ardal y cynllun arfaethedig; wal gynnal goncrid i amsugno egni'r tonau, gan gynnwys grisiau mynediad i'r traeth a ramp mynediad mawr i'r traeth rhwng y Parc Drifft a SeaQuarium y Rhyl; promenâd uwch newydd a wal amddiffyniad môr yng nghefn y promenâd, rhwng y Parc Drifft a SeaQuarium y Rhyl; lledu'r promenâd gerllaw Pentre'r Plant. Mae graddfa'r cynllun a llun o'r dyluniad i'w weld yn Atodiad 2.

Oherwydd lefelau cost y cynllun hwn, mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r contractwr i chwilio am opsiynau i leihau'r costau, o bosibl drwy hepgor / addasu rhai elfennau ohono heb amharu ar y manteision amlwg y bydd y gwaith o greu amddiffynfeydd yn eu darparu. Yn anffodus, mae'r terfynau amser i gymeradwyo'r cynllun yn parhau i fod yn dynn iawn, felly gofynnir am gymeradwyaeth y Cyngor er nad yw'r gostyngiadau costau posibl wedi eu gwerthuso'n llawn. Yn fyr, byddai'r gymeradwyaeth newydd yn seiliedig ar y gost uchaf o £66 miliwn ar gyfer y gwaith terfynol. Yr ydym yn anelu at ostwng hyn yn y pen draw.

Cafodd y cynllun ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio ar 13 Gorffennaf 2022, a rhoddwyd caniatâd cynllunio. Gosodwyd nifer o amodau cyn dechrau, ac mae tîm y prosiect yn hyderus y gellir eu cyflawni. Cafodd trwydded forol ar gyfer y cynllun ei chaniatáu gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar 9 Tachwedd 2021.

Cyflwynwyd Achos Busnes Llawn ar gyfer y cynllun i Lywodraeth Cymru (LlC) ddiwedd mis Tachwedd 2022. Mae'r Cyngor wedi gweithio'n agos gyda LlC yn ystod datblygiad y cynllun ac mae'n rhagweld y ceir cymeradwyaeth gan LlC erbyn diwedd mis Rhagfyr 2022.

Mae asesiad o effaith carbon wedi ei gynnal sy'n dangos, dros oes y cynllun, bod effeithiau carbon yn debyg iawn i'r buddion carbon, sy'n golygu bod y cynllun yn garbon niwtral.

Mae'r Cyngor wedi bod yn rhan o drafodaethau cadarnhaol gyda busnesau yr effeithir arnynt gan y cynllun.

Mae tîm y prosiect yn gweithio'n agos gyda thîm prosiect Adfywio'r Rhyl, i wneud yn siŵr bod cynllun amddiffyn yr arfordir a'r cynllun adfywio yn cael eu cydlynu'n agos i sicrhau cyn lleied ag sy'n bosibl o darfu o ganlyniad i'r prosiectau adeiladu sylweddol hyn.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae dwy flaenoriaeth yng Nghynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych (2017-22) sydd yn berthnasol yn yr achos yma; Yr Amgylchedd a Phobl Ifanc. Bydd cynnydd y cynlluniau yma'n bodloni uchelgais o dan flaenoriaeth yr Amgylchedd i amddiffyn preswylwyr rhag llifogydd. Dylai profiad gwaith a chyfleoedd gwaith i bobl ifanc fod ar gael yn ystod y camau adeiladu yn y dyfodol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae cost gyfunol y ddau gynllun oddeutu £92 miliwn. O'r gost hon, caiff 85% ei ariannu gan Lywodraeth Cymru fel cymorth grant, sy'n cael ei dalu i'r Cyngor dros gyfnod o 25 mlynedd drwy'r Grant Cynnal Refeniw.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Crynodeb am Brestatyn: Nod y prosiect yw lleihau'r perygl o lifogydd ym Mhrestatyn. O gymryd bod y nod yma'n cael ei gyflawni, bydd yn arwain at Sir

Ddinbych sydd yn fwy ffyniannus, gwydn, iach, cyfartal ac sy'n gyfrifol yn fyd-eang. Gweler Atodiad 3a ar gyfer yr asesiad llawn.

7.2. Crynodeb am Ganol y Rhyl: Nod y prosiect yw lleihau'r perygl o lifogydd yng nghanol y Rhyl. O gymryd bod y nod yma'n cael ei gyflawni, bydd yn arwain at Sir Ddinbych sydd yn fwy ffyniannus, gwydn, iach, cyfartal ac sy'n gyfrifol yn fyd-eang. Gweler Atodiad 3b ar gyfer yr asesiad llawn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cynhaliwyd ymgynghoriad eang ar gyfer y ddau gynllun, gan gynnwys yr un a gynhaliwyd fel rhan o'r broses gynllunio ffurfiol. Roedd ymgyngoreion yn cynnwys preswylwyr a busnesau lleol, cynghorwyr sir, cynghorwyr tref a chyrff statudol.

8.2. Cyflwynwyd adroddiad i Bwyllgor Craffu Cymunedau ar 8 Medi 2022. Penderfynodd y Pwyllgor argymell cyflwyno'r cynlluniau i'r Grŵp Buddsoddi Strategol, y Cabinet a'r Cyngor yn olynol ar gyfer cymeradwyaeth.

8.3. Cyflwynwyd achos busnes ar gyfer pob cynllun i Fwrdd y Gyllideb ar 20 Medi 2022. Penderfynodd y bwrdd argymell symud y cynlluniau yn eu blaenau i'r cam adeiladu, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet a'r Cyngor, a chymeradwyo grant Llywodraeth Cymru (mae copïau o'r achosion busnes wedi eu cynnwys fel Atodiad 4 ac Atodiad 5). Ar 22 Tachwedd 2022, argymhellodd y Cabinet gyflwyno'r ddau gynllun i'r Cyngor ar gyfer penderfyniad ynglŷn â symud ymlaen.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Os caiff ei gymeradwyo, byddai'n ymrwymiad ariannol sylweddol gan y Cyngor ar adeg o ansicrwydd economaidd sylweddol. Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd yn Adran 6, mae'r cynlluniau arfaethedig angen cyfraniad o £13.8 miliwn gan y Cyngor. Model ariannu Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau o'r fath yw i gynghorau fenthyg yr arian i dalu am y cynllun cyfan ac i'r Llywodraeth ad-dalu cost flynyddol benthyg 85% ohono i'r cynghorau drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Y gost refeniw i'r Cyngor o fenthyca ei gyfran yw tua £0.8 miliwn mewn

blwyddyn lawn ar ôl cwblhau. Bydd y gost wirioneddol yn dibynnu ar swm terfynol y contract a chyfraddau llog ar y pryd (ac mae disgwyl iddynt barhau i gynyddu ar hyn o bryd). Mae hyn yn golygu ymrwymiad mawr ar adeg ofidus iawn i'r Cyngor yn ariannol, ac os caiff ei gymeradwyo, byddai felly yn cynyddu'r arbedion neu'r toriadau mae'n rhaid i'r Cyngor eu gwneud ym mhob un o'r blynyddoedd hynny neu bydd angen codi Treth y Cyngor ymhellach i'r hyn sydd eisoes yn cael ei amcangyfrif yn 1.3%. Mae angen i'r Aelodau fod yn hyderus mai dyma'r flaenoriaeth gywir a'r cynllun cywir i gyfiawnhau'r baich ariannol hwn.

## 10. Risgiau

10.1. Y risg mwyaf sylweddol sy'n gysylltiedig â'r prosiect yw y bydd telerau benthyciad Llywodraeth Cymru yn arwain at faich refeniw hirdymor (25 mlynedd) i'r Cyngor, a fyddai'n effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau eraill. Hefyd, mae yna risg na fydd Llywodraeth Cymru yn cynyddu'r dyfarniad grant i gynnwys unrhyw gynnydd mewn cost yn ystod y gwaith adeiladu. Lliniarwyd y risg hwn trwy ddewis opsiwn caffael sydd wedi arwain at lefel uchel o sicrwydd cost.

10.2. Mae maint a lleoliad cynllun Canol y Rhyl yn golygu y bydd tarfu sylweddol yn debygol yn ystod y cyfnod adeiladu o tua dwy flynedd a hanner. Gwneir pob ymdrech i reoli a lleihau'r tarfu gymaint â phosibl a rhoddir cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu â budd-ddeiliaid ar waith. Er y bydd y cynllun yn anochel yn tarfu, mae'r buddion hirdymor yn llawer mwy na'r effaith tymor byr.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae'r pŵer i wneud penderfyniad wedi'i gynnwys yn Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000, ac Adran S111 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

11.2. Yn ychwanegol, mae gan y Cyngor bŵer i wneud gwaith cynnal a chadw a gwelliannau i'w amddiffynfeydd arfordirol dan Ddeddf Amddiffyn y Glannau 1949.